**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 4)**

**Y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliadau a Rhydd-ddaliadau**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru, os bydd Bil yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliadau a Rhydd-ddaliadau ("y Bil") yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin, ar 27 Tachwedd 2023. Gosodais LCM ar 12 Rhagfyr 2023. Yn dilyn gwelliannau a gyflwynwyd yn ystod Cyfnodau Pwyllgor ac Adrodd Tŷ'r Cyffredin, gosodwyd LCMs ar 30 Ionawr a 4 Mawrth 2024.

3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU 38 o welliannau ar 15 Ebrill, i'w hystyried yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, a gychwynnodd ar 22 Ebrill ac sydd wedi'i drefnu i bara tan 1 Mai o leiaf. Mae'r gwelliannau yn gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, fel y'u disgrifir ym mharagraffau 16 i 30 isod.

4. Ceir 'fersiwn ddiweddaraf y Bil, fel y daeth o Dŷ'r Cyffredin yn: bills.parliament.uk/publications/54460/documents/4496.

## Yr Amcan(ion) Polisi

5. Yr Amcanion polisi a nodwyd gan Lywodraeth y DU yw:

   *Diwygio hawliau tenantiaid o dan lesoedd preswyl hir i brynu rhydd-ddaliad eu tai, i estyn lesoedd eu tai neu eu fflatiau ac i gyd-ryddfreinio neu i gyd-reoli'r adeiladau y mae'r fflatiau'n rhan ohonynt, i roi'r hawl i denantiaid o'r fath leihau'r rhent sy'n daladwy o dan eu lesoedd i rent hedyn pupur, i reoleiddio taliadau a chostau sy'n daladwy gan denantiaid preswyl, i reoleiddio rheoli ystadau preswyl ac i reoleiddio taliadau rhent.*

## Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

7. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn ymdrin â'r canlynol:
   - Estyn cyfnod lesoedd safonol tai a fflatiau i 990 o flynyddoedd (i fyny o 90 o flynyddoedd ar gyfer fflatiau a 50 o flynyddoedd ar gyfer tai), a gostwng rhent tir i rent hedyn pupur (gwerth ariannol o sero) ar ôl talu premiwm.
   - Dileu'r hyn a elwir yn 'werth cyfunol'.

- Dileu'r gofyniad y dylai lesddeiliad newydd fod wedi bod yn berchen ar ei dŷ neu ei fflat am ddwy flynedd cyn y caiff fanteisio ar y newidiadau hyn.
- Cynyddu'r terfyn “di-breswyl” o 25% sy'n gymwys i eiddo defnydd cymysg, ac a all rhwystro lesddeiliaid mewn adeiladau lle mae cyfuniad o gartrefi a defnyddiau eraill fel siopau a swyddfeydd, rhag prynu eu rhydd-ddaliadaeth neu ymgymryd â rheoli eu hadeiladau eu hunain.
- Gofyn am dryloywder ynglŷn â thaliadau gwasanaethau lesddeiliaid.
- Cyflwyno ffioedd gweinyddu tryloyw yn lle taliadau comisiwn yswiriant adeiladau i asiantiaid rheoli a landlordiaid.[1]
- Dileu'r rhagdybiaeth y dylai lesddeiliaid dalu costau cyfreithiol eu landlordiaid wrth herio arferion gwael.
- Rhoi'r un hawliau gwneud iawn i berchnogion tai rhydd-ddaliadol ar ystadau preifat ac ystadau deiliadaeth gymysg ag i lesddeiliaid.

8. Mae'r LCM cyntaf a osodais ar 12 Rhagfyr 2023 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y darpariaethau a gynhwysir yn y Bil fel y'i cyflwynwyd i'r Senedd ar 27 Tachwedd.

9. Disgrifir y gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin yn yr ail femorandwm a osodais ar 30 Ionawr. Yn gryno, y prif welliannau o sylwedd a wnaed yn ystod y cyfnod hwn oedd:
   - Gofyniad am hysbysiad o daliad gwasanaeth yn y dyfodol mewn perthynas â , thaliadau gwasanaethau a thaliadau rheoli ystadau, a fydd yn cael eu gwneud ar ôl y cyfnod arferol o 18 mis.
   - Pŵer newydd i'r tribiwnlys i benodi rheolwr yn lle rheolwr taliadau ystad presennol, o dan rai amgylchiadau.
   - Hawliau newydd i lesddeiliaid a pherchnogion tai sy'n gorfod talu taliadau rheoli ystadau i ofyn am wybodaeth i'w helpu i werthu eiddowerthu.
   - Esemptiadau i'r drefn ryddfreinio newydd ar gyfer lesddeiliaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac i lesddeiliaid darparwyr tai cymunedol.
   - Darpariaeth i leihau rhent sy'n daladwy gan lesddeiliad canolraddol, lle yr effeithir arnynt gan lesddeiliad yn arfer yr hawl newydd i gael les estynedig ar rent hedyn pupur.
   - Eglurhad o'r hawliau rhyddfreinio sydd ar gael i lesddeiliaid eiddo rhanberchnogaeth.

10. Disgrifir y gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin yn y trydydd memorandwm, a osodais ar 4 Mawrth. Ynghyd â mân welliannau a gwelliannau technegol, roedd y newidiadau mwy sylweddol a wnaed yn y cam hwnnw yn mynd i'r afael â:
   - Gwahardd defnyddio lesddaliadau ar gyfer y rhan fwyaf o dai newydd.
   - Eglurhad o sut mae hawliau rhyddfreinio yn gymwys i eiddo rhanberchnogaeth.

[1] Yn y ddogfen hon, cyfeiriaf at ‘landlord’ i ddynodi’r rhydd-ddeiliad neu’r prif lesddeiliad mewn trefniadau lesddaliadol, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch â'r defnydd o rydd-ddeiliad i ddisgrifio perchnogion tai sy'n talu taliadau rheoli ystad sy'n ddarostyngedig i Ran 4 o'r bil.

- Eglurhad o gymhwysiad y Bil i'r Goron.

11. Mae'r Bil a'r gwelliannau sy'n destun y memorandwm ategol hwn yn diwygio'n bennaf gyfraith lesddaliadau bresennol Cymru a Lloegr, yn benodol Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliadau 1967 ("LRA 1967"), Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliadau, Tai a Datblygu Trefol 1993 ("LRHUDA 1993"), Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 ("CLRA 2002") a Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1985 ("LTA 1985").

12. Mae'r Bil hefyd yn diwygio cylch gwaith y Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau datganoledig.

**Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r trydydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol**

13. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn dal i fod mewn cysylltiad aml â chydweithwyr yn Llywodraeth y DU wrth i'r Bil fynd rhagddo cyfyngu rhent tir ar gyfer lesoedd presennol.

14. Yn ystod dadl y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin a'r ddadl ar yr ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi, nododd Gweinidogion sy'n cynrychioli Llywodraeth y DU eu bod yn bwriadu gwneud gwelliannau pellach i'r Bil, nad ydynt wedi cyrraedd eto, mewn meysydd gan gynnwys cyfyngu ar rent tir mewn lesoedd presennol, a fforffedu lesddaliadau. Er nad yw'n glir eto pa welliannau eraill y gellir eu cyflwyno o hyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, rwy'n disgwyl gweld gwelliannau i'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, o ganlyniad i drafodaethau sy'n dal i fynd rhagddynt rhwng swyddogion.

15. Cyhoeddwyd fersiwn wedi'i diweddaru o'r Bil ar ôl i'r Bil symud i Dŷ'r Arglwyddi. Mae Atodiad A yn cynnwys tabl sy'n dangos y newidiadau i rifau cymalau yn dilyn y gwelliannau a wnaed yn ystod pob cyfnod yn nhaith y Bil hyd yn hyn. Mae Atodiad B yn nodi lle mae cymalau yn cynnwys pwerau i wneud rheoliadau, i bwy y maent yn cael eu mestyn ar hyn o bryd a pha weithdrefn y maent yn ddarostyngedig iddi.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

16. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn ystod y cyfnod hwn yn fân ac yn dechnegol eu natur, ond rhoddaf esboniad byr o'u heffaith yma. Mae rhifau'r gwelliant a ddyfynnir yn y ddogfen hon yn cyfeirio at y rhai a ddefnyddir yn y papur gwelliannau a gyhoeddwyd ar 15 Ebrill, sydd ar gael yn y ddolen hon: HL Bill 50(e) (parliament.uk).

*Atodlen 1* (Categorïau o lesoedd a ganiateir)

17. Mae gwelliant OPC457 i Atodlen 1 yn dod â'r diffiniad o ranberchnogaeth a ddefnyddir yn y darpariaethau gwahardd tai lesddaliadol yn unol â'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill yn y Bil, lle mae'n diwygio hawliau rhyddfreinio lesddeiliaid tai yn LRA 1967.

*Cymal 27 (Dileu'r cyfyngiadau ar hawlio rhyddfraint ac estyniad fwy nag unwaith)*

18. Bydd gwelliant OPC481 i gymal 27, sy'n diwygio LRA 1967, yn atal landlord a thenant rhag cytuno i gyfyngu ar allu'r tenant i hawlio rhyddfraint fwy nag unwaith.

*Atodlen 3 (Cymhwysedd ar gyfer rhyddfreinio ac estyniad: achosion penodol)*

19. Mae gwelliannau OPC399, OPC400 ac OPC405 yn gwneud gwelliant i Atodlen 3 i adlewyrchu deddfwriaeth newydd a basiwyd ers drafftio'r darpariaethau hyn, ac i gywiro cyfeiriadau at gyrff sydd wedi'u diddymu neu eu holynu. Mae OPC 401 yn ychwanegu at restr o gyrff sydd i'w trin fel ‘awdurdodau lleol’ at ddibenion adran 57 o Ddeddf Landlord a Thenant 1954.

*Atodlen 4 (Pennu a rhannu gwerth y farchnad)*

20. Mae gwelliannau OPC 493-500 yn cywiro’r derminoleg sy’n cael ei defnyddio yn yr atodlen hon mewn perthynas â ‘current lease’, fel y'i defnyddir mewn mannau eraill, er mwyn osgoi dryswch. Mae gwelliannau OPC458 ac OPC490 hefyd yn gwneud cywiriadau i derminoleg. Mae gwelliannau OPC491 ac OPC492 yn newid geiriad i sicrhau bod darpariaethau ym mharagraff 8 a pharagraff 25 yn cyfeirio yn unig at y les gyfredol pan fo cyfres o lesoedd mewn cadwyn.

*Cymal 41 (Diwygio Rhan 1 of the LRHUDA 1993)*

21. Mae gwelliant OPC390 yn cywiro hepgoriad yn y drafftio. Mae gwelliant OPC389 yn gwneud yr un cywiriad yn Atodlen 9.

*Cymal 45 (LRA 1967: cadw'r gyfraith bresennol ar gyfer rhyddfreiniau penodol)*

22. Mae gwelliant OPC408 yn ei gwneud yn ofynnol i lesoedd penodol a grëwyd ar ôl dyddiad penodedig fod yn ddarostyngedig i'r dull prisio newydd yn y Bil hwn, yn hytrach na chaniatáu i lesddeiliaid yr eiddo hyn ddewis defnyddio cyfraith cyn 2024 i hawlio’u rhyddfraint.

*Cymal newydd ar ôl 45 (Rhan 2: diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall) ac Atodlen Newydd cyn Atodlen 9 (Rhan 2: diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall)*

23. Mae gwelliant OPC411 yn cyflwyno cymal newydd ar ôl cymal 45 sydd ei hun yn cyflwyno atodlen newydd a nodir o dan welliant OPC412. Mae'r atodlen newydd hon yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth arall sy'n ganlyniadol i Ran 2 o'r Bil. Mae gwelliannau OPC410 ac OPC409 i Atodlen 8 yn ganlyniad i symud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 i'r atodlen newydd hon.

*Atodlen 9 (Yr hawl i amrywio les i ddisodli rhent tir â rhent hedyn pupur)*

24. Mae OPC388 yn newid geiriad yn yr atodlen hon i adlewyrchu terminoleg mewn mannau eraill yn y Bil sy'n cyfeirio at 'price' yn hytrach na 'premium'.

*Cymal 51 (Estyn rheoliad i daliadau gwasanaeth sefydlog)*

25. Mae gwelliant OPC437 yn gwneud newidiadau i LTA 1987 i adlewyrchu bod y cymal hwn yn estyn cyfundrefn taliadau gwasanaeth LTA 1985 ar gyfer lesddaliadau i daliadau gwasanaeth sefydlog. Mae OPC436 sy'n diwygio'r cymal hwn, ac OPC438 sy'n diwygio cymal 53 yn ganlyniadol ar y newidiadau hyn.

*Cymal 54 (Cyfrifon ac adroddiadau blynyddol)*

26. Mae OPC446 yn darparu eglurhad o'r gofyniad newydd ar landlordiaid i ddarparu adroddiad gan gyfrifydd cymwys i gadarnhau cywirdeb cyfrifon sy'n ymwneud â thaliadau gwasanaeth sy'n daladwy gan lesddeiliaid. Mae OPC448 yn egluro y caiff costau teg a rhesymol cadw at y gofynion a eglurir o dan OPC466 fod yn rhan o'r tâl gwasanaeth newidiol. Mae OPC473 yn ganlyniadol i OPC466. Bydd OPC450 yn caniatáu i'r awdurdod priodol bennu'r cymwysterau angenrheidiol sy'n ofynnol ar gyfer rhywun sy'n bodloni'r gofyniad o dan OPC466, ac mae OPC451 yn nodi manylion y pŵer i wneud rheoliadau o dan yr adran hon; Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

*Atodlen 10 (Rhan 4: gwelliannau canlyniadol)*

27. Mae gwelliant OPC393 yn ganlyniadol i gymal 67 (LTA 1985: cymhwysiad i’r Goron).

*Cymal 77 (Adroddiadau blynyddol)*

28. Mae gwelliannau OPC391 ac OPC392 yn alinio terminoleg â'r hyn a ddefnyddir mewn mannau eraill yn Rhan 5 o'r Bil.

*Cymal 81 (Ystyr "administration charge")*

29. Mae gwelliant OPC453 yn gwneud newidiadau i sicrhau nad yw ffioedd digwyddiadol mewn llety ymddeol yn bodloni diffiniad y Bil o "administration charge". Mae ffioedd digwyddiadol yn symiau sy'n daladwy pan fo amgylchiadau penodol yn codi, megis gwerthu, is-osod neu newid meddiannaeth.

30. Yn fy marn i, nid yw'r gwelliannau a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU yn newid fy marn o ran yr angen am gydsyniad ar gyfer y cymalau a'r atodlenni hynny y maent yn eu diwygio. Yn ogystal, mae'r cymal newydd a'r atodlen newydd a gynigir gan welliannau OPC411 ac OPC412 hefyd yn sbarduno'r gofyniad am gydsyniad. Y rheswm am hyn yw bod y cymalau a'r atodlenni, fel y bwriedir eu diwygio gan Lywodraeth y DU yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, yn gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd, sef tai.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

31. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi yn eu barn hwy bod angen cydsyniad dim ond mewn perthynas â'r gwelliannau a ganlyn:
    - OPC 412. Mae'r Atodlen newydd hon yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud yn gyffredinol â chostau a thaliadau gwasanaeth; mae Llywodraeth y DU o'r farn nad yw'r darpariaethau hyn yn ymwneud ag unrhyw faterion a gedwir yn ôl yn Neddf Llywodraeth Cymru ac nid yw'n golygu unrhyw gyfyngiadau.
    - OPC 411, sy'n mewnosod yr Atodlen newydd a grëwyd gan OPC 412 yn y Bil.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliadau a Rhydd-ddaliadau**

32. Mae'r rhesymeg a amlinellir yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol ar y Bil hwn ynghylch pam mae'n briodol i ddeddfwriaeth y DU wneud darpariaeth i Gymru yn y Bil hwn yn parhau i fod yn berthnasol. Rwy'n ailddatgan fy nadleuon yma eto er hwylustod cyfeirio.

33. Rwy'n credu ei bod yn briodol ceisio cael deddfwriaeth ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr er mwyn diwygio cyfraith lesddaliadau. Yn fy marn i, bydd hyn yn lleihau cymhlethdod ac yn gwneud y gyfraith mor eglur a chydlynol â phosibl ac yn sicrhau bod y system ddiwygiedig decach newydd yn gymwys i bawb.

34. Rwyf wedi amlinellu uchod lle mae gwahaniaeth barn rhyngof fi a Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch y graddau y gallai Senedd Cymru ddeddfu ar gyfer y darpariaethau yn y Bil hwn. Pe baem am gael Bil i Gymru yn unig er mwyn cyflawni'r un nodau, a'i fod yn cael ei herio am nad yw o fewn cymhwysedd, gallai hyn arwain at oedi sylweddol cyn sicrhau'r budd y byddai dinasyddion yng Nghymru yn ei gael o ganlyniad i'r newidiadau. Mae gweithredu ar y cyd yn osgoi'r risg hon.

35. Yn fy marn i, mae rhyng-gysylltedd a chyffredinrwydd y gyfraith yn y maes hwn yn golygu ei bod fwyaf effeithiol a phriodol i ddarpariaeth ar gyfer Cymru a Lloegr gael ei datblygu ar yr un pryd ac yn yr un offeryn deddfwriaethol.

36. Yn yr un modd, o ystyried cymhlethdod y ddeddfwriaeth bresennol ar lesddaliadau, byddai dull gweithredu cydlynol a chyson yn fuddiol i Gymru a Lloegr, yn enwedig o ystyried bod Cymru a Lloegr yn rhannu rhanbarth poblog iawn ar y ffin.

37. Yn olaf, mae egwyddorion cyn Brif Weinidog Cymru ynglŷn ag argymell rhoi cydsyniad ar gyfer darpariaethau ym Miliau'r DU yn nodi y byddai'n annoeth i Lywodraeth fabwysiadu rheol hunanymwadiad. Yn fy marn i, byddai peidio â manteisio ar y cyfle a ddaw yn sgil y Bil hwn yn bolisi o'r fath.

38. Fel yr esboniais yn y memoranda blaenorol ar gyfer y Bil hwn, er bod darpariaethau'r Bil hwn yn golygu gwelliannau cadarnhaol iawn i berchnogion cartrefi yng Nghymru, yn fy marn i, mae anghytundeb o hyd â Llywodraeth y DU o ran i ba raddau y mae darpariaethau unigol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ac i ba raddau y dylai Gweinidogion Cymru

allu arfer pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil. Mae hyn yn berthnasol eto wrth ddyrannu swyddogaethau gweithredol yn y gwelliannau hyn. Rwy'n parhau i fynd ati i weithio gyda Llywodraeth y DU ynghylch y mater hwn, ac rwy'n disgwyl i welliannau pellach gael eu cyflwyno i fynd i'r afael â'm pryderon. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am fy nghynnydd maes o law.

**Goblygiadau ariannol**

39. Mae'r Bil hwn yn gwneud darpariaeth sylweddol mewn perthynas â'r Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau datganoledig, a fydd yn effeithio ar ei bwerau a'i lwyth achosion. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu'r effaith bosibl ar y tribiwnlys ac i ddeall beth fydd goblygiadau ariannol yr effaith honno. Mae Asesiad Effaith Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil sy'n cwmpasu goblygiadau ehangach y Bil yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys ei effeithiau ar Gymru, ar gael yma.

**Casgliad**

40. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn o hyd ym Mil y DU gan y byddai hynny'n lleihau cymhlethdod, yn gwneud y gyfraith mor eglur a chydlynol â phosibl ac yn sicrhau bod y system ddiwygiedig decach newydd yn gymwys i bawb.

**Julie James AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**
**26 Ebrill 2024**

**Atodiad A – Cymharu fersiynau'r Bil**

Y Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 27 Tachwedd 2023:
Leasehold and Freehold Reform Bill (parliament.uk)

Y Bil fel y cafodd ei ddiwygio yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin a'i gyhoeddi ar 9 Chwefror 2024
Leasehold and Freehold Reform Bill (parliament.uk)

Y Bil fel y cafodd ei ddiwygio yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin a'i gyhoeddi ar 28 Chwefror 2024
Leasehold and Freehold Reform Bill (parliament.uk)

| | **Rhif y cymal** | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r cymal** | **Cyflwyniad** | **Fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin** | **Fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin** |
| Rhan 1 – Tai lesddaliadol | | | |
| *Gwahardd rhoi neu aseinio rhai lesoedd tai preswyl hir* | | | |
| Gwahardd rhoi neu aseinio rhai lesoedd tai preswyl hir | | | 1 |
| *Diffiniadau allweddol* | | | |
| Lesoedd tai preswyl hir | | | 2 |
| Lesoedd tymor hir | | | 3 |
| Cyfres o lesoedd â'u tymor yn para mwy na 21 mlynedd | | | 4 |
| Tai | | | 5 |
| Lesoedd preswyl | | | 6 |
| Lesoedd a ganiateir | | | 7 |
| *Rheoleiddio lesoedd a ganiateir* | | | |
| Lesoedd a ganiateir: ardystiad gan y tribiwnlys priodol | | | 8 |
| Lesoedd a ganiateir: cyfyngiadau marchnata | | | 9 |
| Lesoedd a ganiateir: amodau rhybuddio am drafodiad | | | 10 |
| *Cofrestru tir* | | | |
| Datganiadau rhagnodedig mewn lesoedd hir newydd | | | 11 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfyngu ar deitl | | | 12 |
| *Gwneud Iawn* | | | |
| Gwneud Iawn: Yr hawl i gaffael ystad lesddaliadol uwch neu rydd-ddaliadol | | | 13 |
| Gwneud Iawn: Cymhwyso'r hawl i gaffael | | | 14 |
| Gwneud Iawn: darpariaeth gyffredinol | | | 15 |
| Rheoliadau gwneud iawn: arfer yr hawl i gaffael a rhoi effaith iddo | | | 16 |
| *Gorfodi* | | | |
| Gorfodi gan awdurdodau safonau masnach | | | 17 |
| Cosbau ariannol | | | 18 |
| Cosbau ariannol: gorfodi trawsffiniol | | | 19 |
| Prif awdurdod gorfodi | | | 20 |
| Dyletswyddau cyffredinol y prif awdurdod gorfodi | | | 21 |
| Gorfodi gan y prif awdurdod gorfodi | | | 22 |
| Pwerau a dyletswyddau pellach awdurdodau gorfodi | | | 23 |
| *Cyffredinol* | | | |
| Pŵer i ddiwygio: lesoedd a ganiateir a diffiniadau | | | 24 |
| Dehongli Rhan 1 | | | |
| Rhan 2 – Rhyddfreinio ac estyn lesddaliadau | | | |
| *Cymhwysedd ar gyfer rhyddfreinio ac estyn lesddaliadau* | | | |
| Dileu cyfnod cymhwyso cyn cael hawlio rhyddfraint ac estyn lesddaliad | 1 | 1 | 26 |
| Dileu'r cyfyngiadau ar sawl gwaith y ceir hawlio rhyddfraint ac estyniad | 2 | 2 | 27 |
| Newid y terfyn dibreswyl sy'n hawlio rhyddfreiniau ar y cyd | 3 | 3 | 28 |
| Cymhwysedd i ryddfreinio ac estyn: achosion penodol | 4 | 4 | 29 |
| *Effeithiau rhyddfreinio* | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Caffael buddiannau canolraddol wrth hawlio rhyddfreiniau ar y cyd | 5 | 5 | 30 |
| Yr hawl i ofyn i'r rhydd-ddeiliad dderbyn y les ar unrhyw unedau sydd ar ôl yn dilyn rhyddfreinio ar y cyd | 6 | 6 | 31 |
| *Effeithiau estyniad* | | | |
| Estyn lesoedd hirach | 7 | 7 | 32 |
| Estyn lesoedd o dan LRA 1967 yn dilyn talu premiwm am bris rhent hedyn pupur | 8 | 8 | 33 |
| *Y pris sy'n daladwy am ryddfreinio neu estyn* | | | |
| LRA 1967: pennu'r pris sy'n daladwy am rydd-ddaliad neu estyn les | 9 | 9 | 34 |
| LRHUDA 1993: pennu'r pris sy'n daladwy am ryddfraint ar y cyd neu les newydd | 10 | 10 | 35 |
| Rhyddfreinio neu estyn: dull newydd ar gyfer cyfrifo'r pris sy'n daladwy | 11 | 11 | 36 |
| *Costau rhyddfreinio neu estyn les* | | | |
| Costau rhyddfreinio ac estyn les o dan LRA 1967 | 12 | 12 | 37 |
| Costau rhyddfreinio ac estyn les o dan LRHUDA 1993 | 13 | 13 | 38 |
| *Awdurdodaeth y llysoedd sirol a'r tribiwnlysoedd* | | | |
| Rhoi adrannau newydd yn lle adrannau 20 a 21 o LRA 1967 | 14 | 14 | 39 |
| Cyfeiriadau at 'the court' yn Rhan 1 o'r LRA 1967 | 15 | 15 | 40 |
| Diwygio Rhan 1 o LRHUDA 1993 | 16 | 16 | 41 |
| Cyfeiriadau at 'the court' yn Rhan 1 o LRHUDA 1993 | 17 | 17 | 42 |
| *Awdurdodaeth yr Uchel Lys* | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim ceisiadau tro cyntaf i'r Uchel Lys ynghylch materion tribiwnlysoedd | 18 | 18 | 43 |
| *Rhyddfreinio ac estyn: diwygiadau amrywiol* | | | |
| Diwygiadau amrywiol | 19 | 19 | 44 |
| *Cadw'r gyfraith bresennol at ddibenion penodol* | | | |
| LRA 1967: cadw'r gyfraith bresennol at ddiben rhai rhyddfreiniau | 20 | 20 | 45 |
| Rhan ~~2~~ 3 – Hawliau eraill deiliaid lesoedd hir | | | |
| *Hawl newydd i dalu rhent hedyn pupur yn lle rhent* | | | |
| Yr hawl i newid les hir i dalu rhent hedyn pupur yn lle rhent | 21 | 21 | 46 |
| *Yr hawl i reoli* | | | |
| Newid y terfyn dibreswyl mewn hawliadau hawl i reoli; | 22 | 22 | 47 |
| Costau hawliadau hawl i reoli | 23 | 23 | 48 |
| Cydymffurfio â rhwymedigaethau sy'n codi o dan Bennod 1 o Ran 2 o CLRA 2002 | 24 | 24 | 49 |
| Dim ceisiadau tro cyntaf i'r Uchel Lys ynghylch materion tribiwnlysoedd | 25 | 25 | 50 |
| Rhan ~~3~~ 4 – Rheoleiddio lesddaliadau | | | |
| *Taliadau gwasanaeth* | | | |
| Estyn y rheoleiddio ar daliadau gwasanaeth sefydlog | 26 | 26 | 51 |
| Hysbysiadau gofyn am dâl gwasanaeth yn y dyfodol | | 27 | 52 |
| Gofyn am dâl gwasanaeth | 27 | 28 | 53 |
| Cyfrifon ac adroddiadau blynyddol | 28 | 29 | 54 |
| Yr hawl i gael gwybodaeth ar gais | 29 | 30 | 55 |
| Gorfodi dyletswyddau sy'n ymwneud â thaliadau gwasanaeth | 30 | 31 | 56 |
| *Yswiriant* | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfyngu ar allu'r landlord i godi am gostau yswiriant | 31 | 32 | 57 |
| Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth am yswiriant i denantiaid | 32 | 33 | 58 |
| *Taliadau gweinyddu* | | | |
| Dyletswydd ar landlordiaid i gyhoeddi rhestrau o daliadau gweinyddu | 33 | 34 | 59 |
| *Costau ymgyfreitha* | | | |
| Cyfyngiadau ar hawliau landlordiaid i hawlio costau ymgyfreitha oddi wrth denantiaid | 34 | 35 | 60 |
| Hawliau tenantiaid i hawlio costau ymgyfreitha oddi wrth landlordiaid | 35 | 36 | 61 |
| *Costau nad ydynt yn gostau ymgyfreitha: rhyddfreinio, estyn lesoedd a'r hawl i reoli* | | | |
| Cyfyngu ar adennill costau rhyddfreinio, estyn lesoedd a'r hawl i reoli nad ydynt yn gostau ymgyfreitha | | 37 | 62 |
| *Y Tribiwnlys yn penodi rheolwr* | | | |
| Penodi rheolwr: y pŵer i newid neu ddileu gorchmynion | | 38 | 63 |
| Penodi rheolwr: torri gofynion y cynllun gwneud iawn | | 39 | 64 |
| *Ceisiadau am wybodaeth i helpu i werthu* | | | |
| Ceisiadau am wybodaeth ynghylch gwerthu lesddaliad | | 40 | 65 |
| *Cyffredinol* | | | |
| Rheoliadau o dan LTA 1985: gweithdrefnau ac awdurdod priodol | 36 | 41 | 66 |
| LTA 1985: Cymhwysiad i'r Goron | | | 67 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhan ~~3~~4: diwygiadau canlyniadol | 37 | 42 | 68 |
| Cymhwyso Rhan ~~3~~4 i lesoedd presennol | 38 | 43 | 69 |
| Rhan ~~4~~5 – Rheoleiddio gwaith rheoli ystadau | | | |
| *Diffiniadau allweddol* | | | |
| Ystyr "estate management" ac ati | 39 | 44 | 70 |
| *Cyfyngu taliadau a godir am reoli ystadau* | | | |
| Taliadau a godir am reoli ystadau: cyfyngiadau cyffredinol | 40 | 45 | 71 |
| Cyfyngu taliadau a godir am reoli ystadau: rhesymoldeb | 41 | 46 | 72 |
| Cyfyngu taliadau a godir am reoli ystadau: gofynion ymgynghori | 42 | 47 | 73 |
| Cyfyngu taliadau a godir am reoli ystadau: terfynau amser | 43 | 48 | 74 |
| Penderfyniad tribiwnlys ynghylch taliadau a godir am reoli ystadau | 44 | 49 | 75 |
| *Hawliau yn ymwneud â thaliadau a godir am reoli ystadau* | | | |
| Gofyn am daliad | 45 | 50 | 76 |
| Adroddiadau blynyddol | 46 | 51 | 77 |
| Yr hawl i ofyn am wybodaeth | 47 | 52 | 78 |
| Ceisiadau o dan adran ~~47~~ ~~52~~ 78: darpariaeth bellach | 48 | 53 | 79 |
| Gorfodi adrannau ~~45~~ ~~50~~ 76 i ~~48~~ ~~53~~ 79 | 49 | 54 | 80 |
| *Taliadau gweinyddu* | | | |
| Ystyr 'administration charge" | 50 | 55 | 81 |
| Dyletswydd rheolwyr ystadau i gyhoeddi rhestr o daliadau gweinyddu | 51 | 56 | 82 |
| Gorfodi adran ~~51~~ ~~56~~ 82 | 52 | 57 | 83 |
| Cyfyngu ar daliadau gweinyddu | 53 | 58 | 84 |
| Penderfyniad tribiwnlys ynghylch taliadau gweinyddu | 54 | 59 | 85 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Codau ymarfer rheoli* | | | |
| Codau ymarfer rheoli: eu hestyn i reolwyr ystadau | 55 | 60 | 86 |
| *Tribiwnlys yn penodi rheolwr newydd* | | | |
| Hysbysiadau am gŵyn | | 61 | 87 |
| Penodi rheolwr newydd | | 62 | 88 |
| Amodau ar gyfer gwneud cais am orchymyn penodi | | 63 | 89 |
| Meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid gwneud gorchymyn penodi | | 64 | 90 |
| Gorchmynion penodi: darpariaeth bellach | | 65 | 91 |
| *Ceisiadau am wybodaeth i helpu i werthu* | | | |
| Rheoli ystadau: ceisiadau am wybodaeth i helpu i werthu | | 66 | 92 |
| Effaith cais am wybodaeth i helpu i werthu | | 67 | 93 |
| Taliadau am ddarparu gwybodaeth | | 68 | 94 |
| Gorfodi adrannau ~~67~~ 93 i ~~68~~ 94 | | 69 | 95 |
| *Cyffredinol* | | | |
| ~~Rhan 4: cais i adrannau'r llywodraeth~~ | 56 | 70 | wedi'i ddileu |
| Rhan 5: Cymhwysiad i’r Goron | | | 96 |
| Dehongli Rhan 4 | 57 | 71 | 97 |
| Rhan ~~5~~ 6 – Rheoli lesddaliadau ac ystadau: cynlluniau gwneud iawn | | | |
| *Cynlluniau gwneud iawn: cyffredinol* | | | |
| Rheoli lesddaliadau ac ystadau: cynlluniau gwneud iawn | | 72 | 98 |
| Cynlluniau gwneud iawn: awdurdodaeth wirfoddol | | 73 | 99 |
| Cymorth ariannol ar gyfer sefydlu neu gynnal cynlluniau gwneud iawn | | 74 | 100 |
| Cymeradwyo a dynodi cynlluniau gwneud iawn | | 75 | 101 |
| Cynlluniau gwneud iawn: heb statws y Goron | | | 102 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Gorfodi* | | | |
| Cosbau ariannol | | 76 | 103 |
| Cosbau ariannol: cosbau uchaf | | 77 | 104 |
| Gellir gorfodi penderfyniad o dan gynllun gwneud iawn os yw'n orchymyn llys | | 78 | 105 |
| Prif awdurdod gorfodi: darpariaeth bellach | | 79 | 106 |
| *Canllawiau* | | | |
| Canllawiau ar gyfer awdurdodau gorfodi a gweinyddwyr cynlluniau | | 80 | 107 |
| *Diwygiadau i Ddeddfau eraill* | | | |
| Rhan 6: Diwygiadau i Ddeddfau eraill | | | 108 |
| *Dehongli* | | | |
| Dehongli Rhan ~~5~~ 6 | | 81 | 109 |
| Rhan ~~5~~ 7 – Taliadau rhent | | | |
| Ystyr "estate rentcharge" | 58 | 82 | 110 |
| Rheoleiddio rhwymedïau ar gyfer ôl-ddyledion rhent | 59 | 83 | 111 |
| Rhan 8 - Diwygiadau i Ran 5 o Ddeddf Diogelwch Adeiladu 2022 | | | |
| *Adfer diffygion adeiladu* | | | |
| Camau sy'n ymwneud ag adfer diffygion | | | 112 |
| Gorchmynion adfer | | | 113 |
| Gorchymyn cyfrannu at adfer | | | 114 |
| Adfer costau cyfreithiol ac ati drwy dâl gwasanaeth | | | 115 |
| Dirymu adran 125 o BSA 2022 | | | 116 |
| *Ansolfedd personau cyfrifol* | | | |
| Adeiladau perthnasol a risg uwch: hysbysiad mewn cysylltiad ag ansolfedd | | | 117 |
| Rhan ~~6~~ 9 – Cyffredinol | | | |
| Dehongli cyfeiriadau at ddeddfau eraill | 60 | 84 | 118 |
| Y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol | 61 | 85 | 119 |
| Rheoliadau | 62 | 86 | 120 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cwmpas | 63 | 87 | 121 |
| Cychwyn | 64 | 88 | 122 |
| Teitl byr | 65 | 89 | 123 |
| Categorïau lesoedd a ganiateir | | | Atodlen 1 |
| Categorïau lesoedd a ganiateir ar gyfer eu hardystio gan Dribiwnlysoedd | | | Rhan 1 |
| Categorïau lesoedd a ganiateir ar gyfer hunanardystio | | | Rhan 2 |
| Tai lesddaliadol: cosbau ariannol | | | Atodlen 2 |
| Cymhwysedd i ryddfreinio ac estyn: achosion penodol | Atodlen 1 | Atodlen 1 | Atodlen 3 |
| Pennu a rhannu gwerth y farchnad | Atodlen 2 | Atodlen 2 | Atodlen 4 |
| Cyflwyniad | Rhan 1 | Rhan 1 | Rhan 1 |
| Gwerth y farchnad | Rhan 2 | Rhan 2 | Rhan 2 |
| Pennu gwerth y farchnad | Rhan 3 | Rhan 3 | Rhan 3 |
| Rhagdybiaethau a materion eraill sy'n effeithio ar bennu gwerth y farchnad | Rhan 4 | Rhan 4 | Rhan 4 |
| Y dull prisio safonol | Rhan 5 | Rhan 5 | Rhan 5 |
| Hawl gan bersonau cymwys i rannu gwerth y farchnad | Rhan 6 | Rhan 6 | Rhan 6 |
| Penderfynu ar werth y tymor | Rhan 7 | Rhan 7 | Rhan 7 |
| Digolledu arall | Atodlen 3 | Atodlen 3 | Atodlen 5 |
| Atodlen ~~2~~ 4 ac Atodlen ~~3~~ 5: Dehongli | Atodlen 4 | Atodlen 4 | Atodlen 6 |
| Diwygiadau canlyniadol i adran ~~11~~ 36 ac Atodlenni ~~2~~ 4 i 4 6 | Atodlen 5 | Atodlen 5 | Atodlen 7 |
| Rhyddfreinio ac estyn lesddaliadau: diwygiadau amrywiol | Atodlen 6 | Atodlen 6 | Atodlen 8 |
| LRA 1967 a LRHUDA 1993: Cyffredinol | Rhan 1 | Rhan 1 | Rhan 1 |
| Lesoedd rhanberchnogaeth ac LRA 1967 ac ati | | Rhan 2 | Rhan 2 |
| Lesoedd rhanberchnogaeth a LRHDA 1993 | | Rhan 3 | Rhan 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth arall | Rhan 2 | Rhan 4 | Rhan 4 |
| Yr hawl i newid les i dalu rhent hedyn papur yn lle rhent | Atodlen 7 | Atodlen 7 | Atodlen 9 |
| Rhan 3: diwygiadau canlyniadol | Atodlen 8 | Atodlen 8 | Atodlen 10 |
| Diwygiadau sy'n ganlyniadol i adran ~~36~~ 41 | Rhan 1 | Rhan 1 | Rhan 1 |
| Diwygiadau canlyniadol eraill | Rhan 2 | Rhan 2 | Rhan 2 |
| Cynlluniau gwneud iawn: cosbau ariannol | | Atodlen 9 | Atodlen 11 |
| Rhan 6: Diwygiadau i Ddeddfau eraill | | | Atodlen 12 |
| Teitl | | | |

*Atodiad B - Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth*

Mae'r wybodaeth a restrir o dan 'disgrifiad' yn grynodeb byr. Ceir gwybodaeth fanylach am y pwerau yn y Bil yn y Memorandwm Pwerau Dirprwyedig ar y ddolen hon: 4513 (parliament.uk).

Rwyf wedi rhestru'r holl bwerau yn y Bil, ond wedi hepgor gwybodaeth am ddiben pwerau pan fo'r darpariaethau'n gymwys i Loegr yn unig. Mae cysgod llwyd ar y rhain yn y tabl.

| Cyf y Bil | Disgrifiad | I'w arfer gan | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|
| 10 | Lesoedd a ganiateir: amodau rhybuddio am drafodiad (ffurflen, cynnwys, proses hysbysu) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 16 | Rheoliadau unioni: arfer a rhoi effaith i'r hawl i gaffael (pŵer eang i bennu a diwygio rheoliadau prosesau a manylion) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| 18 | Cosbau ariannol (newid isafswm ac uchafswm) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| 20 | Prif Awdurdod gorfodi (pŵer i benodi a newid) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| 21 | Dyletswyddau cyffredinol y prif awdurdod gorfodi (pŵer i gyfarwyddo'r prif awdurdod gorfodi) | Ysgrifennydd Gwladol | Amh |
| 24 | Pŵer i ddiwygio: lesoedd a ganiateir a diffiniadau (newid diffiniadau ac ychwanegu neu ddileu categorïau lesoedd a ganiateir) | Ysgrifennydd Gwladol | Rhai cadarnhaol, rhai negyddol |
| 37 | Costau rhyddfreinio ac estyn o dan LRA 1967 (rhagnodi symiau costau landlordiaid nad ydynt yn rhai ymgyfreitha sydd i'w talu gan ryddfreinwyr, pennu amgylchiadau pan fydd yn rhaid rhannu rhan o'r premiwm rhwng landlordiaid) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 38 | Costau rhyddfreinio ac estyn o dan LRHUDA 1993 (rhagnodi symiau costau landlordiaid nad ydynt yn rhai ymgyfreitha sydd i'w talu gan ryddfreinwyr, pennu amgylchiadau pan fydd yn rhaid rhannu rhan o'r premiwm rhwng landlordiaid) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 52 | Hysbysiadau gofyn am dâl gwasanaeth yn y dyfodol (ffurflen, cynnwys, proses hysbysu) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 53 | Gofyn am dâl gwasanaeth (ffurflen, cynnwys, proses gofyn; pŵer i eithrio rhai landlordiaid neu daliadau yn sgil gofynion) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 54 | Cyfrifon ac adroddiadau blynyddol (ffurflen, cynnwys, proses cyfrifon ac adroddiadau; eithriadau) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 55 | Yr hawl i gael gwybodaeth ar gais (mathau o wybodaeth, proses cais, cyfnod amser i gydymffurfio) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 56 | Gorfodi dyletswyddau sy'n ymwneud â thaliadau gwasanaeth (newid terfyn digolledu) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 57 | Cyfyngu ar allu'r landlord i godi am gostau yswiriant (a ystrir yn daliadau a ganiateir) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Cadarnhaol |
| 58 | Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth am yswiriant i denantiaid (mathau o wybodaeth, cyfnod amser i ymateb, ffurflen a dull ymateb, eithriadau rhag gofynion, newid terfyn digolledu) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 59 | Dyletswydd landlordiaid i gyhoeddi rhestrau o daliadau gweinyddu (ystyr 'adeiladu', ffurflen, cyhoeddi a phroses ar gyfer darparu rhestrau, newid terfyn digolledu) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 60 | Cyfyngiadau ar hawliau landlordiaid i hawlio costau ymgyfreitha oddi wrth denantiaid (materion y mae'n rhaid i lys neu dribiwnlys eu hystyried, proses gwneud cais; ffurflen, cynnwys, proses hysbysu) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 61 | Hawliau tenantiaid i hawlio costau ymgyfreitha oddi wrth landlordiaid (materion y mae'n rhaid i lys neu dribiwnlys eu hystyried, beth yw 'camau perthnasol' yr hawl hwn) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 65 | Ceisiadau am wybodaeth i helpu gwerthu lesddaliadau (pa wybodaeth i'w darparu, gan bwy, i bwy, erbyn pryd, pa gost) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 73 | Cyfyngu taliadau a godir am reoli ystadau: gofynion ymgynghori (diffinio swm priodol, gofynion ymgynghori) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| 74 | Cyfyngu taliadau a godir am reoli ystadau: terfynau amser (ffurflen, cynnwys, proses rhybuddio; 'rheol berthnasol' o ran pryd y ceir gwneud taliadau hwyr) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| 76 | Gofyn am daliad (ffurflen, cynnwys, proses gofyn; eithriadau) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| 77 | Adroddiadau blynyddol (ffurflen, proses gynnwys ar gyfer adroddiadau; eithriadau) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| 78 | Hawl i ofyn am wybodaeth (math o wybodaeth, proses) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| 79 | Ceisiadau o dan adran 78: darpariaeth bellach (cyfnod amser i gydymffurfio â cheisiadau) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| 80 | Gorfodi adrannau 76 i 79 (newid terfyn digolledu) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 81 | Ystyr "administration charge" (diwygio diffiniad) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Cadarnhaol |
| 82 | Dyletswydd rheolwyr ystadau i gyhoeddi rhestrau o daliadau gweinyddol (ffurf, cynnwys, proses) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 83 | Gorfodi adran 82 (newid terfyn digolledu) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 87 | Hysbysiadau cwyno (cynnwys hysbysiad, pryd i'w roi) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| 89 | Amodau ar gyfer gwneud cais am orchymyn penodi (cynnwys hysbysiad rhybuddio terfynol, pryd i'w roi) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| 90 | Meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid gwneud gorchymyn penodi (amgylchiadau pan fyddai'r | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | tribiwnlys yn cael ei rwystro rhag gwneud apwyntiad) | | |
| 92 | Rheoli ystadau: ceisiadau am wybodaeth i helpu i werthu (ffurflen, cynnwys, proses gofyn am wybodaeth) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 93 | Effaith y cais am wybodaeth i helpu i werthu (terfyn amser i ateb, dull ateb) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 94 | Taliadau a godir am ddarparu gwybodaeth (cyfyngu ar y swm y gellir ei godi) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 95 | Gorfodi adrannau 93 i 94 (newid terfyn digolledu) | Ysgrifennydd Gwladol / Gweinidogion Cymru | Negyddol |
| 98 | Rheoli lesddaliadau ac ystadau: cynlluniau gwneud iawn | Ysgrifennydd Gwladol (Lloegr yn unig) | Cadarnhaol |
| 101 | Cymeradwyo a dynodi cynlluniau gwneud iawn | Ysgrifennydd Gwladol (Lloegr yn unig) | Cadarnhaol |
| 103 | Cosbau ariannol | Ysgrifennydd Gwladol (Lloegr yn unig) | Cadarnhaol |
| 104 | Cosbau ariannol: cosbau uchaf | Ysgrifennydd Gwladol (Lloegr yn unig) | Negyddol |
| 105 | Gellir gorfodi penderfyniad o dan gynllun gwneud iawn os yw'n orchymyn llys | Ysgrifennydd Gwladol (Lloegr yn unig) | Negyddol |
| 106 | Prif awdurdod gorfodi: darpariaeth bellach | Ysgrifennydd Gwladol (Lloegr yn unig) | Negyddol / Dim |
| 111 | Rheoleiddio rhwymedïau ar gyfer ôl-ddyledion rhent (terfyn swm sy'n daladwy am weithredu i adfer neu orfodi talu ôl-ddyledion) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| 114 | Gorchymyn cyfrannu at adfer | Ysgrifennydd Gwladol (Lloegr yn unig) | Negyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 119 | Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol (yn cynnwys darpariaeth i ddiwygio Deddfau Seneddol) | Ysgrifennydd Gwladol | Cadarnhaol, os yw'n diwygio Deddf Seneddol, fel arall yn negyddol |
| 122 | Cychwyn (pŵer i gychwyn, gwneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth adfer) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| At 1 | Categorïau lesoedd a ganiateir (newid diffiniadau lesoedd tai cymunedol, tai ymddeol, rhanberchnogaeth a chynlluniau cyllido cartrefi) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| At 2 | Tai lesddaliadol: cosbau ariannol (dull darparu hysbysiadau) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| At 3 | Cymhwysedd ar gyfer rhyddfreinio ac estyn: achosion penodol (disgrifiad o ddarparwr tai cymunedol, proses ymgeisio am neu ganslo tystysgrif, materion i'r tribiwnlys eu hystyried; rhagnodi 'National Trust buy-back term' a gwneud darpariaeth ar gyfer 'protected National Trust tenancy') | Ysgrifennydd Gwladol | Cadarnhaol ar gyfer pwerau tai cymunedol, negyddol ar gyfer pwerau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| At 4 | Pennu a rhannu gwerth y farchnad (pennu cyfraddau gohirio a chyfalafu) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| At 8 | Rhyddfreinio ac estyn lesddaliadau: diwygiadau amrywiol (pa lesoedd cydberchnogaeth na ddylid eu cynnwys mewn hawliau rhyddfreinio) | Ysgrifennydd Gwladol | Negyddol |
| At 9 | Yr hawl i newid lesoedd i dalu rhent hedyn pupur yn lle rhent (costau landlordiaid nad ydynt yn rhai ymgyfreitha sydd i'w talu gan y lesddaliwr; pŵer i roi effaith i'r hawl; pŵer i newid meini prawf cymhwysedd ar gyfer yr hawl) | Rhai Ysgrifennydd Gwladol, rhai Gweinidogion Cymru (y rhai sy'n ymwneud â chostau) | Negyddol |